Rhif: WG29897

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Ymgynghoriad i Lywio Datblygiad y Polisi Adnoddau Naturiol

Dyddiad cyhoeddi: 14 Tachwedd 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 13 Chwefror 2017

Mae'r ddogfen yma ar gael hefyd yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron

**Trosolwg**

O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae gofyn i Weinidogion Cymru gyhoeddi Polisi Adnoddau Naturiol statudol. Bydd y Polisi Adnoddau Naturiol yn allweddol i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy trwy bennu yr hyn y mae Gweinidogion Cymru yn ei ystyried yw'r risgiau, y blaenoriaethau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru, gan gynnwys yr hyn y dylid ei wneud o ran bioamrywiaeth a'r newid yn yr hinsawdd; a pholisïau Gweinidogion Cymru ar gyfer cyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Yn unol â'r ffyrdd o weithio a ddisgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r egwyddorion a ddisgrifir yn Neddf yr Amgylchedd, cynhelir yr ymgynghoriad trwy ymgysylltu. Bydd croeso am adborth ysgrifenedig mwy traddodiadol ar y themâu a'r prif amcanion o'u mewn ac a ddisgrifir yn y ddogfen hon fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Yn arbennig, gan gymryd i ystyriaeth y fframwaith cyfreithiol a'i ofynion fel y'u disgrifir yn y ddogfen hon, byddai'n ddefnyddiol derbyn cyfraniadau ar:

- Y prif gamau y bydd angen eu cymryd er mwyn cynnal y themâu a mynd i'r afael â'r prif heriau; a
- Y rhwystrau y mae angen eu chwalu.

**Sut i ymateb**

Llenwch yr holiadur wrth droed y ddogfen ymgynghori a'i ddychwelyd.

| | |
|---|---|
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.<br><br>Datganiad Polisi ar Adnoddau Naturiol<br>http://gov.wales/docs/desh/publications/150914-natural-resources-policy-statement-cy.pdf<br><br>Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) 2016<br>http://www.naturalresources.wales/sonarr?lang=cy<br><br>Deddf yr Amgylchedd<br>http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/environment-act/?skip=1&lang=cy |
| **Manylion cysylltu** | Enw: Cangen y Polisi Adnoddau Naturiol<br><br>Cyfeiriad: Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>E-bost :<br>NaturalResourceManagement@wales.gsi.gov.uk |

**Diogelu Data**

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Contents

Ymgynghoriad i Lywio Datblygiad y Polisi Adnoddau Naturiol ........ 1
Rhagair y Gweinidog ........ 6
1. Adnoddau naturiol a lles ........ 7
2. Sut i fynd ati i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ........ 9
Beth yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy? ........ 9
Rôl y Polisi Adnoddau Naturiol ........ 9
Y fframwaith cyflenwi ........ 9
Y berthynas rhwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Cynllunio (Cymru). ........ 11
3. Datblygu'r Polisi Adnoddau Naturiol ........ 12
Y Ddyletswydd am Fioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau ........ 13
Themâu â Blaenoriaeth y Polisi Adnoddau Naturiol ........ 13
Camau nesaf ........ 17
Atodiad 1: Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ........ 18
Beth yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy? ........ 18
Sut mae mesur cydnerthedd yr ecosystem? ........ 18
Darparu'r buddiannau ........ 18
Sut mae gwneud hyn? ........ 19
Sut ydym yn gwybod ein bod yn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy? ........ 20
Atodiad 2 - Y Prif Heriau ........ 21
Ffurflen Ymateb yr Ymgynghoriad ........ 22

## Rhagair y Gweinidog



Yr ymgynghoriad hwn ar ddatblygiad y Polisi Adnoddau Naturiol yw'r cam arwyddocaol nesaf ar gyfer rhoi ein deddf flaengar, Deddf yr Amgylchedd (Cymru), ar waith. Gan ddatblygu'r cyfleoedd a'r heriau gafodd eu nodi yn yr 'Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol' a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ffocws y Polisi Adnoddau Naturiol yw rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol Cymru. Mae'r ffordd honno o reoli yn ei thro yn hanfodol i wireddu amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Wrth ddatblygu Polisi Adnoddau Naturiol cyntaf Cymru yng nghyd-destun goblygiadau difrifol ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn y maes hwn, fy amcan yw sicrhau bod yr ymgynghoriad hwn yn rhan allweddol o'r trafod ynghylch y ffordd ymlaen i Gymru. O gofio bod gwreiddiau'n deddfwriaeth a'n cyllid yn ddwfn yn fframwaith gweithredu'r UE, mae'r angen yn glir. Ynghyd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Deddf yr Amgylchedd yn gosod sylfaen gref inni adeiladu arni gan fod y ddwy Ddeddf yn ymgorffori mewn deddfwriaeth sylfaenol ein rhwymedigaeth i ymrwymiadau rhyngwladol pwysig na fyddant yn newid o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd. Maent eisoes yn cael eu cydnabod fel esiamplau da i'r byd. O fewn y cyd-destun hwn, bydd y Polisi Adnoddau Naturiol felly yn chwarae rhan allweddol i sicrhau bod Cymru'n cael elwa ar y cyfleoedd sylweddol a ddaw yn sgil rheoli'n hadnoddau naturiol yn well a thaclo'r heriau rydym yn eu hwynebu.

Elfen allweddol o'n hagwedd fel Llywodraeth at dwf gwyrdd a'n hymrwymiad iddo yw rheoli a defnyddio'n cyfoeth aruthrol o adnoddau naturiol yn well a defnyddio'n hadnoddau ehangach yn fwy effeithiol Mae gan dwf gwyrdd rôl allweddol i'w chwarae hefyd o ran gwella'n cydnerthedd a'n hiechyd fel gwlad. Mae'r dystiolaeth o ran yr heriau sy'n wynebu'n hadnoddau naturiol hefyd yn glir ac yn tanlinellu'r angen am newid sylfaenol inni allu mynd i'r afael â'r tueddiadau anghynaliadwy yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. Trwy weithio gyda'n gilydd i sicrhau'r newid hwnnw, yn ogystal â gwella ansawdd ein haer a'n dŵr; gwella'n gallu i wrthsefyll effeithiau hinsawdd sy'n newid, diogelu'n pridd, gwella ein bioddiogelwch a chyfoethogi'n bioamrywiaeth, bydd ganddo ran allweddol i'n helpu i wireddu'n hamcanion fel Llywodraeth yn '*Symud Cymru Ymlaen*' i greu Cymru sy'n ffyniannus a diogel, iach ac egnïol, uchelgeisiol sy'n dysgu acunedig a chysylltiedig.

Rwy'n disgwyl ymlaen at weithio gyda chi trwy'r ymgynghoriad i adeiladu ar y momentwm sydd eisoes wedi'i greu yng Nghymru gan ddeddfwriaeth trwy ddatblygu atebion ar y cyd sy'n sbarduno gweithredu arloesol a dylanwadu ar ffurf y Polisi Adnoddau Naturiol er lles yr amgylchedd ac er ein lles cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.



**Lesley Griffiths AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**

## 1. Adnoddau naturiol a lles

Mae adnoddau naturiol ac ecosystemau Cymru yn sylfaenol i bob agwedd ar ein lles, gan gynnwys ein ffyniant, iechyd a diwylliant. Rydym yn dibynnu ar adnoddau naturiol o ansawdd uchaf i ddarparu'n bwyd, dŵr glân ac aer. Rydym yn dibynnu arnynt hefyd am ddeunydd crai, dŵr ac ynni ar gyfer ein prif ddiwydiannau: coedwigaeth, cynhyrchu trydan, gweithgynhyrchu, pysgodfeydd ac amaethyddiaeth. O'u defnyddio'n ddoeth, darparant doreth o gyfleoedd i gefnogi ein ffyniant ymhellach, gwella ein hiechyd corfforol a meddyliol, datblygu cyfleoedd hamddena, gweithgareddau awyr agored a thwristiaeth a chymryd camau i daclo heriau'r hinsawdd a gwella'n gallu i'w gwrthsefyll, a lleihau'r risg o siociau a pheryglon fel llifogydd. Dros y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd rhai gwelliannau yng nghyflwr ein hadnoddau naturiol, er enghraifft yn ansawdd ein dŵr, ond pery llawer o heriau i'w trechu, gan gynnwys:

- lefelau llygredd yn ein haer
- sicrhau cyflenwad di-dor o ddŵr
- ein bioddiogelwch (iechyd planhigion ac anifeiliaid, a rhywogaethau estron goresgynnol)
- ansawdd a ffrwythlondeb ein pridd
- bioamrywiaeth, sy'n sail i strwythur a gweithgarwch ein hecosystemau
- cydnerthedd ein hecosystemau a'u buddiannau i ni, gan gynnwys eu rôl aruthrol i'n diogelu rhag peryglon fel llifogydd ac i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo
- sŵn trefol sy'n cyfrannu at faich amgylcheddol afiechyd.

### Sylfaen genedlaethol o dystiolaeth i Gymru

Mae'r 'Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol' gan Cyfoeth Naturiol Cymru (www.cyfeothnaturiolcymru.wales/sonar) yn sylfaen genedlaethol o dystiolaeth o'r modd rydym yn rheoli'n hadnoddau naturiol a'n hecosystemau gan ddangos cyfraniad arwyddocaol ein hadnoddau naturiol at ein lles.

**Beth mae'r 'Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol' gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei ddweud**

**Sut mae ein hadnoddau naturiol yn cynnal ein prif sectorau**

Mae amgylchedd arfordir a môr Cymru'n cyfrannu £6.8 biliwn at economi Cymru, gan gynnal mwy na 92,000 o swyddi.

Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) amaethyddiaeth Cymru yn ei chyfanrwydd yw £385 miliwn. Mae hyn yn sail i drosiant blynyddol o £6.1 biliwn a GVA o £1.55 biliwn y sector cynhyrchu ar y fferm a gweithgynhyrchu bwyd.

GVA blynyddol y sector coedwigaeth yng Nghymru yn 2015 oedd £499 miliwn. Yn 2013, amcangyfrifwyd bod y sector coedwigaeth yng Nghymru'n cyflogi rhwng 8,500 ac 11,300 o bobl.

Mae pysgodfeydd dŵr croyw a dŵr môr Cymru yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at yr economi. Amcangyfrifir y cafodd gwerth £2.8 miliwn o bysgod a £12 miliwn o bysgod cregyn eu glanio yng Nghymru gan gychod y DU yn 2014.

Mae'r economi carbon isel yn gwneud yn well na'r economi gyffredinol. Rhwng 2010 a 2013, tyfodd GVA y sector ar gyfradd gyfansawdd flynyddol o 8.7%. Dros yr un cyfnod, tyfodd yr economi gyfan 3.4% y flwyddyn, yn ôl data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer GVA.

Amcangyfrifir bod twristiaeth natur a gweithgareddau awyr agored yng Nghymru yn werth rhyw £6.2 biliwn ac yn darparu 206,000 o swyddi ledled Cymru.

**Y prif heriau**

Mae'n annhebygol bod ecosystemau ar draws Cymru'n ddigon cydnerth a bydd hynny'n effeithio ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau a buddiannau yn y dyfodol.

Amcangyfrifir bod 3,400 o litrau o ddŵr yn cael ei ddefnyddio bob dydd fesul person i gynhyrchu'r bwyd a'r nwyddau sy'n cael eu defnyddio gan gymdeithas. Mae rhagolygon poblogaeth Cymru'n golygu y bydd galw aelwydydd am ddŵr yn cynyddu 3%, 12 miliwn o litrau'n fwy y dydd erbyn 2025.

Mae pridd y tir amaethyddol mwyaf cynhyrchiol o'r ansawdd gorau yn adnodd prin y mae terfyn iddo, yn cyfrif am lai na 7% o dir Cymru. Gan ddibynnu ar y ffordd y caiff pridd ei reoli, ceir rhai ardaloedd lle mae'r risg yn fawr a rhai problemau lleol tymor hir fel erydiad pridd.

Mae mwy na'r llwyth critigol o nitrogen yn cael ei roi ar 90% o'r cynefinoedd lled-naturiol yng Nghymru sy'n sensitif i nitrogen . Mae hynny'n effeithio ar iechyd a chydnerthedd ecosystemau a bioamrywiaeth.

Mae cyflwr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yng Nghymru o ran eu rhywogaethau, yn 2013, yn parhau'n anffafriol gan fwyaf, ac eithrio adar a mamaliaid. Rhwng 2002 a 2008, roedd prin hanner y rhywogaethau ar restr interim Adran 7 mewn cyflwr sefydlog neu ar gynnydd.

Bydd y **newid yn yr hinsawdd** yn gwaethygu'r risgiau hyn ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy – yn ôl y rhagolygon:

- bydd ei effeithiau ar fioamrywiaeth yn debygol o fod yn fawr,
- mae potensial i blaon a chlefydau planhigion ac anifeiliaid a rhywogaethau goresgynnol gynyddu.
- mwy o risg o sychder a chyfnodau twym fydd yn golygu llai o ddŵr yn yr haf gan rwy pwysau ar gyflenwadau a chan effeithio ar iechyd,
- glawiad trymach gyda lefelau'r môr yn codi, gan olygu llifogydd mwy difrifol, amlach.

[1]Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru): Rhestrau o'r rhywogaethau a'r cynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf at bwrpas cynnal a gwella bioamrwyiaeth Cymru.

## 2. Sut i fynd ati  i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn gosod ‘rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol’ ar seiliau cyfreithiol.  Hanfod hynny yw mynd i’r afael ag achosion sylfaenol tueddiadau anghynaliadwy a gwireddu’r cyfleoedd arwyddocaol y mae ein hadnoddau naturiol a’n hecosystemau yn eu darparu, fel y’u disgrifir ym mhennod 1 ac yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.

### Beth yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

Mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael ei ddisgrifio’n fanwl yn Atodiad 1. Mae’n ffordd o reoli sy’n sicrhau nad yw’r ffordd rydym yn defnyddio’n hadnoddau naturiol ac yn effeithio arnyn nhw yn eu dirywio yn y tymor hir.  Mae’n ymwneud ag edrych ar y ffyrdd rydym yn rheoli ein hadnoddau naturiol:

- sut ydym yn eu defnyddio
- sut ydym yn lleihau’r pwysau ar ein systemau naturiol trwy weithgareddau fel arbed adnoddau, a
- gweithgareddau positif, fel adfer cynefinoedd i gryfhau ein hecosystemau

Gwnawn hyn am fod ecosystemau iach a chydnerth yn fwy abl i ddelio â’r pwysau a’r gofynion sydd arnynt – fel hinsawdd sy’n newid – fel eu bod yn gallu parhau i ddarparu’r amrywiaeth eang o wasanaethau ecosystem er ein lles a’n ffyniant, nawr ac yn y dyfodol.

Egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yw’n ‘ffordd ni o weithio’.

### Rôl y Polisi Adnoddau Naturiol

Bydd y Polisi Adnoddau Naturiol yn allweddol i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli’n gynaliadwy trwy bennu:

- yr hyn y mae Gweinidogion Cymru yn ei ystyried yw’r risgiau, y blaenoriaethau a’r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru, gan gynnwys yr hyn y dylid ei wneud o ran bioamrywiaeth a’r newid yn yr hinsawdd; a
- polisïau Gweinidogion Cymru ar gyfer cyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

### Y fframwaith cyflenwi

Mae’r Polisi Adnoddau Naturiol yn rhan o fframwaith cyflenwi ehangach ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

[2] Yn unol â gofynion Adran 9 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

## Yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n paratoi adroddiad ar statws adnoddau naturiol Cymru ac yn cadw golwg ar y gwaith sy'n cael ei wneud i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf ym mis Medi 2016 a chaiff adroddiad newydd ei gyhoeddi bob blwyddyn i gofnodi'r wybodaeth orau ddiweddaraf am reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru.

**Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol**

**Y sylfaen genedlaethol o dystiolaeth ar gyfer RhANG**

- Helpu ag adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar hynt ei ddyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a chynnal egwyddorion RhANG wrth gynnal ei swyddogaethau.
- Tystiolaeth i helpu Gwasanaethau Cyhoeddus cyn llunio Datganiadau Ardal – Asesiadau, amcanion a chynlluniau llesiant
- Tystiolaeth i helpu Awdurdodau Lleol cyn llunio Datganiadau Ardal – Y ddyletswydd am fioamrywiaeth ac ecosystemau cydnerth
- Bydd Gweindiogion Cymru'n ystyried y dystiolaeth wrth lunio'r Polisi Adnoddau Naturiol

## Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol

Bydd yn gosod allan polisïau a blaenoriaethau Gweinidogion Cymru ar gyfer cyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Trwy wneud, bydd yn helpu i gynnal nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Caiff y polisi statudol cyntaf ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2017.

**Polisi Adnoddau Naturiol**

- Polisïau strategol Gweinidogion Cymru ar gyfer cyfrannu at RhANG, gan ddylanwadu ar ei roi ar waith yn Llywodraeth Cymru
- Pennu blaenoriaethau Gweinidogion Cymru ar gyfer RhANG
- Y blaenoriaethau gweithredu'n penderfynu ar gwmpas a lleoliad Datganiadau Ardal

## Datganiadau Ardal

Cynhyrchir Datganiadau Ardal gan Cyfoeth Naturiol Cymru i roi sylfaen o dystiolaeth ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ôl y raddfa sydd ei hangen, i roi blaenoriaethau Gweinidogion Cymru yn y Polisi Adnoddau Naturiol ar waith. Caiff blaenoriaethau lleol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy eu clustnodi hefyd wrth i'r datganiadau ardal gael eu datblygu i'w bwydo i gynlluniau llesiant lleol. Caiff Cymru gyfan ei chwmpasu gan un datganiad ardal neu fwy.

**Datganiad Ardal** | **Datganiad Ardal** | **Datganiad Ardal** | **Datganiad Ardal**

- Sylfaen leol o dystiolaeth ar gyfer Awdurdodau Lleol – Y ddyletswydd am fioamrywiaeth ac ecosystemau cydnerth
- Sylfaen dystiolaeth ar gyfer gweithredu ar draws y gwasanaethau cyhoeddus ac i'r holl randdeiliaid ar gyfer cydweithredu ac arloesi, trwy bartneriaethau lleol. Bydd datganiadau ardal yn bwydo asesiadau/cynlluniau llesiant lleol ac yn sylfaen o dystiolaeth i Fyrddau Gwasanaethau Lleol

## Y berthynas rhwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Cynllunio (Cymru).

Derbyniodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Gydsyniad y Frenhines ym mis Mawrth 2016. Cafodd ei datblygu ar ôl ymgynghoriadau yn 2010 (Cymru Fyw), 2012 (Papur Gwyrdd) a Phapur Gwyn Bil yr Amgylchedd (*Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy*) yn 2014. Cafodd ei datblygu ar y cyd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan ategu a chysylltu â'r ddeddf honno; mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn rhan hanfodol o ddatblygu cynaliadwy.  Mae cyswllt agos rhwng y Ddeddf a Deddf Cynllunio (Cymru) fel y dangosir yn y diagram isod.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**

Yn troi saith amcan llesiant yn ddeddf, ac yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn pum prif ffordd

**Deddf  Amgylchedd (Cymru)**

Creu proses statudol foedern i'n helpu i gynllunio arheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy a chydgysylltiedig

**Deddf Cynllunio (Cymru)**

Yn gwella'r broses gynllunio i sicrhau bod y datblygiad iawn yn digwydd yn y lle iawn

## 3. Datblygu'r Polisi Adnoddau Naturiol

Bydd y Polisi Adnoddau Naturiol statudol, pan gaiff ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2017, yn pennu polisïau Gweinidogion Cymru ar gyfer cyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ddisgrifio hefyd y risgiau, y cyfleoedd a'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Wrth ddatblygu'r polisi, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda rhanddeiliaid a mabwysiadu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a restrir yn Atodiad 1 a'r Ffyrdd o Weithio a restrir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r ddogfen hon yn cynnig sylfaen ar gyfer y gweithredu hwnnw, trwy nodi'r canlyniadau ac amcanion allweddol rydym am i'r Polisi Adnoddau Naturiol eu gwireddu ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Bydd hyn yn datblygu'r Datganiad interim blaenorol ar y Polisi Adnoddau Naturiol a gyhoeddwyd yn 2015 ac sy'n rhoi amlinelliad cychwynnol o heriau'r Polisi Adnoddau Naturiol, sef:

- Diogelu a chynyddu'n storfeydd carbon
- Cynnal ein gallu i gynhyrchu
- Lleihau perygl llifogydd
- Gwella iechyd a thegwch cymdeithasol trwy sicrhau bod pobl yn cael mynd at leoedd gwyrdd a glas o ansawdd uchel
- Gwella ansawdd dŵr a sicrhau ei fod ar gael
- Gwella ansawdd cynefinoedd a'r cysylltiadau rhyngddynt
- Cadw natur unigryw ein lleoedd a'n tirweddau hanesyddol

Gan dynnu o'r Datganiad blaenorol ac yn unol â'n hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen',* mae tair prif thema wedi'u nodi i'r Polisi Adnoddau Naturiol wireddu cyfleoedd arwyddocaol ac i fynd i'r afael â'r heriau a wynebir. Sef yw'r rheini:

- Cyflymu twf gwyrdd trwy ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithiol ac ynni adnewyddadwy a chefnogi arloesedd
- Defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur i fagu cydnerthedd a gwella'r buddiannau y mae adnoddau naturiol yn eu rhoi inni
- Gweithio ar lefel tirwedd a lle er mwyn gwella lles

Gyda'i gilydd, bydd y themâu hyn ein helpu i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru ac yn nodi'r prif feysydd lle gall adnoddau naturiol Cymru barhau i gynnal ffyniant Cymru a gwireddu'r cyfleoedd mawr y maent yn eu cynnig i greu gwlad ddiogel, iach ac egnïol, uchelgeisiol sy'n dysgu ac unedig a chysylltiedig. Maent yn adlewyrchu'r dystiolaeth a'r tueddiadau allweddol yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ac ymateb cyntaf rhanddeiliaid i'r cyfleoedd a'r risgiau sy'n deillio o'r Refferendwm ar adael yr Undeb Ewropeaidd.

Bydd y themâu hyn yn llywio'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu, gan gynnwys y Datganiadau Ardal wrth iddynt gael eu datblygu, ac yn ategu'r gweithredu pellach a ddisgrifir yn y fframwaith cyflenwi ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ym mhennod 2 uchod. Byddant hefyd yn dylanwadu ar y ffordd y caiff egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy eu rhoi ar waith ar draws Llywodraeth Cymru.

## Y Ddyletswydd am Fioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cyflwyno hefyd Ddyletswydd gryfach am Fioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau ar awdurdodau cyhoeddus sy'n cyflawni swyddogaethau yng Nghymru. Mae'r ddyletswydd yn gosod bioamrywiaeth fel "rhan naturiol ac annatod o brosesau llunio polisïau a gwneud penderfyniadau" o fewn awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd dyletswydd newydd ar awdurdodau cyhoeddus i adrodd ar yr hyn y maent yn ei wneud i wella bioamrywiaeth a chryfhau cydnerthedd ecosystemau a hefyd ar yr hyn a wnaed i ymgorffori mesurau bioamrywiaeth o fewn meysydd polisi, strategaethau a mentrau canolog. Mae Cynllun Adfer Natur Cymru'n esbonio'r amcan i wyrdroi'r dirywiad ym mioamrywiaeth Cymru trwy wneud bioamrywiaeth yn ystyriaeth annatod ym mhob penderfyniad ar bob lefel, gan warchod y rhywogaethau a'r cynefinoedd pwysicaf, cryfhau ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u difwyno a mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n bygwth rhywogaethau a chynefinoedd fwyaf. Gall y polisi adnoddau naturiol gynnig platfform proactif cryf i gefnogi gweithredu dros fioamrywiaeth ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus. Bydd ymgorffori'r gweithredu hwnnw yn y Datganiadau Ardal a'r Cynlluniau Llesiant a'u cynnal trwy bartneriaethau lleol, yn helpu awdurdodau lleol i gyflawni nodau'r Cynllun Adfer Natur ar y naill law ac i ysgwyddo'u Dyletswydd am Fioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau ar y llall.

## Themâu â Blaenoriaeth y Polisi Adnoddau Naturiol

**Cyflymu twf gwyrdd trwy ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithiol ac ynni adnewyddadwy a chefnogi arloesedd**

Yng Nghymru, mae twf gwyrdd yn ffordd i feithrin twf a datblygiad economaidd sy'n gymdeithasol deg ac sy'n sicrhau bod ein cyfoeth aruthrol o adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio'n gynaliadwy, fel eu bod yn gallu parhau i'n cynnal a dod â budd inni yn y dyfodol Mae adnoddau naturiol Cymru'n rhan ganolog felly o amcanion Llywodraeth Cymru i ysgogi buddsoddi ac arloesi, cynnal twf di-dor a chreu cyfleoedd economaidd newydd.

Bydd symud at economi sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon yn ganolog i dwf gwyrdd. Mae economi Cymru'n defnyddio llawer o adnoddau naturiol – gan gynnwys dŵr, trydan (adnewyddadwy a ffosil), mwynau (gan gynnwys metelau ac agregau), pren a bwyd. Mae gweithredu i symud at economi gylchol yng Nghymru – lle estynnir defnyddioldeb deunyddiau crai cyn hired â phosib – eisoes yn lleihau'r galw am ddeunyddiau crai. Gallai hyn leihau'r impact ar ein hadnoddau naturiol gan greu yr un pryd gyfleoedd gwaith a thwf economaidd cynaliadwy a helpu i leihau'r risg i ddiogelwch tymor hir y gadwyn gyflenwi.

Mae adnoddau naturiol Cymru'n hanfodol i ymrwymiad Llywodraeth Cymru i helpu i ddatblygu mwy o brosiectau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys cynlluniau ynni cymunedol. Mae ffynonellau ynni adnewyddadwy, fel gwynt, dŵr, haul a biomas, wedi cyfrannu at dwf y sector ynni yn y 10 mlynedd diwethaf ac yn cynnig y potensial am fwy o dwf eto ar dir ac ar fôr. Mae gan fesurau i gefnogi'r defnydd effeithlon o ynni ran hanfodol i'w chwarae i leihau tlodi ynni yng Nghymru.

Ceir cyfleoedd mawr hefyd i feithrin enw da Cymru ymhellach am fwyd o ansawdd uchel a nwyddau a gwasanaethau eraill a gynhyrchir o adnoddau naturiol Cymru.  O gofio ansicrwydd y marchnadoedd yn sgil y refferendwm ar yr UE, mae'r cyfleoedd i ddatblygu marchnadoedd uwch eu gwerth ar gyfer cynnyrch a gwasanaethau newydd ac arloesol sy'n seiliedig ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ffordd bwysig ar gyfer ychwanegu at werth pob rhan o'r gadwyni cyflenwi er lles economi Cymru.

**Atebion sy'n seiliedig ar Natur – i wella cydnerthedd a'r buddiannau a ddaw o adnoddau naturiol**

Atebion sy'n seiliedig ar natur yw'r ymyriadau hynny sy'n defnyddio natur a phrosesau naturiol ecosystemau i daclo rhai o'n heriau mwyaf mewn ffordd gost-effeithiol ac effeithlon. Mae cydnabyddiaeth yn cael ei rhoi ledled y byd y gall atebion sy'n seiliedig ar natur fod yn rhan o ateb hyfyw, cost-effeithiol ac effeithlon i heriau fel hinsawdd sy'n newid, perygl llifogydd a llygredd dŵr, a helpu i ddatrys rhai o'n problemau iechyd cyhoeddus mawr fel clefyd y siwgr, gordewdra a llygredd aer a sŵn.  Daw atebion o'r fath â natur a nodweddion a phrosesau naturiol i ddinasoedd, tirweddau a morweddau, trwy gyfrwng ymyriadau systemig sydd wedi'u haddasu i amgylchiadau lleol ac sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon. Er bod llawer o atebion sy'n seiliedig ar natur wedi hen ennill eu plwyf, mae lle i wneud mwy, gan ddysgu gwersi o raglenni rhyngwladol fel Horizon 2020, Rhaglen LIFE yr UE a Fframwaith Rhaglen Ymchwil ac Arloesi[1] yr UE a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) yn ogystal â chan y prosiectau arloesol sydd wedi'u cynnal yng Nghymru.

Dyma rai atebion sy'n seiliedig ar natur:

- Mwy o seilwaith gwyrdd mewn ardaloedd trefol (gan gynnwys coed trefol, draenio cynaliadwy a phensaernïaeth werdd)
- Rheoli ardaloedd arfordirol ac adlinio dan reolaeth (aberthu arfordir)
- Systemau trin dŵr e.e. pantiau mewn systemau draenio a gwelyau cyrs
- Rheoli pridd yn well ar gyfer storio carbon, ansawdd dŵr a chynnal cynhyrchiant e.e. rheoli mawnogydd, defnyddio coridorau glan nant a phlannu perthi mewn mannau strategol ar ffermydd.
- Rhandiroedd cymunedol
- Rheolaeth naturiol ar lifogydd; a
- Storio carbon

Mae seilwaith gwyrdd, fel coridorau, toeon, waliau a mannau agored gwyrdd, yn darparu gwasanaethau rheoleiddio, gan gynnwys lleihau perygl llifogydd, creu cynefin i bryfed peillio a rhwystro tymheredd eithafol mewn ardaloedd trefol.  Maent yn gallu creu cyfleoedd i wirfoddoli ac ar gyfer gweithgarwch cymunedol gan helpu i gynyddu cyfalaf cymdeithasol, gwella cydlyniant cymunedol a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.  Er enghraifft, mae gan Gymru gyfoeth o barciau a gerddi hanesyddol sy'n rhan bwysig o wead hanesyddol a diwylliannol y wlad.  Mae cymeriad hanesyddol llawer o'r parciau hyn yn gwneud yr ardal yn unigryw ac yn cyfrannu at ymdeimlad o le ac maent hefyd yn creu lleoedd i hamddena a chwarae yn yr awyr agored, gan gyfrannu at iechyd corfforol a meddyliol ac at wneud ardal yn lle mwy dymunol i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef.  Gan fod ansawdd yr

[1] https://ec.europa.eu/programmes/horizon2020/en

amgylchedd yn aml yn dylanwadu ar ganlyniadau iechyd tymor hir, gall seilwaith gwyrdd helpu i wella iechyd trwy gyfrannu at weithredu i wella ansawdd aer.

Mae caniatáu defnydd cyfrifol o fannau gwyrdd a glas gan gynnwys parciau, gelltydd, arfordiroedd a moroedd, yn cyfrannu hefyd at wneud Cymru'n wlad iachach a mwy egnïol. Yn ogystal â'i gyfraniad at effeithiau ffactorau allanol fel ansawdd aer ar iechyd, gall defnyddio gofod gwyrdd a glas helpu i daclo llawer o broblemau iechyd mawr pobl Cymru sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw a bernir y gellid osgoi llawer ohonynt, yn enwedig y cyflyrau cronig sy'n deillio o ddiffyg gweithgarwch corfforol fel clefyd y galon a chlefyd y siwgr math 2. Cynyddu gweithgarwch corfforol at y lefel a argymhellir gan y Prif Swyddog Meddygol a Chorff Iechyd y Byd yw un o brif flaenoriaethau Cymru ac mae hamddena yn yr awyr agored yn gyfraniad arwyddocaol at daro'r targed hwnnw.

Mae atebion sy'n seiliedig ar natur yn rhan allweddol o'r gweithredu sydd ei angen i ysgwyddo'r gofyn cyfreithiol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru o leiaf 80% erbyn 2050.

**Fel un o lofnodwyr cyntaf y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Rhyngwladol ar Weithredu seiliedig ar Natur dros yr Hinsawdd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i:**

- hyrwyddo buddsoddiadau sy'n gwneud ecosystemau'n fwy cydnerth fel ymateb i'r angen i liniaru ac addasu;
- troi at seilwaith naturiol neu "wyrdd" i leihau peryglon yr hinsawdd a darparu gwasanaethau ecosystem ehangach tra'n diogelu bioamrywiaeth ac iechyd ecosystemau;
- defnyddio arfau ac asesiadau i'n helpu i ddeall gwerth ehangach bioamrywiaeth ac ecosystemau iach o ran arafu'r newid yn yr hinsawdd a darparu buddiannau lluosog;
- datblygu arfau i fesur buddiannau ffyrdd integredig o weithio i ymdrin â hinsawdd sy'n newid (gan gynnwys gwasanaethau ecosystem, diogelu bioamrywiaeth, storio carbon a buddiannau ehangach sy'n helpu i wrthsefyll ei effeithiau);
- yr angen am fesur a chydweithio technegol a gwyddonol gwell o ran rhoi'r Memorandwm ar waith; a
- meithrin cysylltiadau tynnach rhwng rheoli ecosystemau, addasu i hinsawdd sy'n newid a datblygu cynaliadwy.

## Rheoli ar raddfa'r dirwedd a lle er mwyn gwella ein lles

Mae atebion sy'n seiliedig ar natur yn defnyddio natur i fod yn rhan o ateb hyfyw, cost-effeithiol ac effeithlon; mae rheoli ar raddfa'r dirwedd a lle yn ymwneud â chysylltu'r atebion hyn a chydweithio arnynt. Mae'n golygu gweithio ar y raddfa sydd ei hangen i reoli'n blaenoriaethau gweithredu a gwneud hynny i gynyddu cydnerthedd ecosystemau a'r buddiannau lluosog y maent yn eu darparu.

Gallai'r gweithredu hwnnw fod

- yn wledig neu'n drefol
- wrth ochr neu'n rhan o weithgareddau sy'n cael eu cynnal eisoes, fel ffermio, coedwigaeth neu ddatblygu trefol
- uno rhwydwaith o ardaloedd gwarchodedig neu gysylltu ardaloedd o fewn tirweddau dynodedig

Mae amrywiaeth o arferion da yn cael eu cynnal yng Nghymru eisoes, yn enwedig y Cynllun Rheoli Cynaliadwy, y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig a rhannau o Glastir. Mae'r ffyrdd hyn o weithio'n rhoi cyfle i helpu cymunedau gwledig i fod yn llwyddiannus a chynaliadwy, er enghraifft, mae gwariant ymwelwyr a thrigolion ar weithgareddau hamdden yn bwysig i gymunedau lleol ac i economi ehangach Cymru, a gwelir cysylltiad clir rhwng adnoddau naturiol Cymru ac enw da Cymru fel cyrchfan o'r radd flaenaf i ymwelwyr o bob rhan o'r byd. Mae'r amgylchedd hanesyddol hefyd yn denu llawer o ymwelwyr i gefn gwlad Cymru ac mae llawer o dirweddau harddaf Cymru yn llawn hefyd o olion pobl yr oes o'r blaen. Mae adnoddau naturiol o ansawdd uchel yn chwarae rhan bwysig hefyd o ran cefnogi sectorau allweddol, fel yn achos dŵr, ffermio, pysgodfeydd, ynni, hamdden a thwristiaeth a gall sbarduno cyfleoedd eraill ar gyfer busnesau lleol mewn meysydd fel carbon trwy daliadau am wasanaethau ecosystem (PES).

**Mae'r 'Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol' gan Cyfoeth Naturiol Cymru'n nodi cyfleoedd mawr i reoli ar raddfa'r dirwedd, fel:**

- Cynyddu coetir a dod â mwy o goetir sy'n bod eisoes o dan reolaeth briodol i esgor ar fuddiannau lluosog
- Gweithio o fewn dalgylchoedd cyfan i reoli maethynnau a chynnal, gwella ac adfer gorlifdiroedd a systemau hydrolegol
- Gwella'r mynydd-dir (mynyddoedd, rhosydd a gweunydd) yn well i ddarparu buddiannau lluosog
- Rheoli ecosystemau morol mewn ffordd integredig trwy system sy'n dilyn cynllun i'n helpu i ddeall yn well y buddiannau a ddaw o adnoddau naturiol y môr a sut i wneud y defnydd gorau ohonynt.

Mae'r thema weithredu yn y Polisi Adnoddau Naturiol a egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu datganiadau ardal

Mae tarddiad y math hwn o weithio yn deillio flynyddoedd yn ôl ac yn cynnwys canfyddiadau 'Adolygiad Lawton' o safleoedd bywyd gwyllt yn 2011 a'i bwyslais ar gadwraeth natur. Mae'n esbonio fod angen mabwysiadu ffordd newydd adferol o weithio sy'n 'ailadeiladu' natur ac yn creu amgylchedd naturiol mwy cydnerth er lles bywyd gwyllt a ninnau. Mae'n argymell rhwydweithiau ecolegol mwy, gwell sy'n sownd wrth ei gilydd a gweithredu cyfrifol ar lefel tirwedd, a gwella bioddiogelwch. Byddai gwella cyflwr ardaloedd â blaenoriaeth tra'n creu a gwella'r cysylltiadau rhyngddynt yn gwneud ein hecosystemau'n fwy cydnerth, ac yn helpu i ddatblygu safleoedd gwarchodedig yn greiddiau i rwydweithiau mawr gweithredol yn hytrach nag 'ynysoedd' o fewn y dirwedd. Dyna sydd ei angen hefyd o ran gweithrediad yr ecosystem a darparu gwasanaethau ecosystemau, sy'n gorfod bodoli ar draws tirweddau cyfain. Wrth inni weld cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau mewn ardaloedd penodol i ddatblygu ecosystemau cydnerth ac iach sy'n darparu gwasanaethau ecosystem allweddol,

mae'n anorfod y bydd cyfatebiaeth gref rhyngddynt â chynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth. Felly, gall gweithio ar lefel tirwedd helpu hefyd i nodi bylchau a blaenoriaethu ardaloedd lle byddai creu neu adfer cynefin er budd bioamrywiaeth a'r buddiannau lluosog a ddaw o wasanaethau ecosystem ar ei fwyaf effeithiol law yn llaw â gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd ehangach. Yn yr un modd, os oes gweithgarwch wedi'i drefnu gan eraill er lles cynefin neu rywogaeth trwy weithio ar lefel tirwedd, sicrheir bod y gweithgarwch yn effeithiol a chynaliadwy fel ar lefel ecosystem, yn ogystal â helpu i ddatblygu dadl gryfach o blaid ei angen ac am gyllid. Ceir cyfleoedd i greu rhwydweithiau a choridorau newydd o fannau gwyrdd cysylltiedig (er enghraifft, wrth i awdurdodau lleol reoli ymylon ffyrdd yn effeithiol i annog pryfed peillio). Byddai hynny'n helpu rhywogaethau i symud i ardaloedd newydd Mae hyn yn enwedig o bwysig yn wyneb hinsawdd sy'n newid ac yn helpu'n bywyd gwyllt i'w wrthsefyll yn well. Gallai rhwydweithiau da o lwybrau cyhoeddus hefyd gynyddu gwasgariad pryfed peillio a helpu i leihau llygredd trwy gynyddu teithio llesol.

## Camau nesaf

Yn unol â'r ffyrdd o weithio a ddisgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r egwyddorion a ddisgrifir yn Neddf yr Amgylchedd, cynhelir yr ymgynghoriad trwy ymgysylltu. Trwy weithio gyda'n gilydd i ddatblygu Polisi Adnoddau Naturiol cyntaf Cymru, bydd hefyd yn helpu i ffurfio'r sylfaen y bydd yn cael ei gynnal arni os ydym am wireddu'r cyfleoedd arwyddocaol a thaclo'r cyfleoedd yn llwyddiannus. O fewn cyd-destun goblygiadau difrifol ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn y maes hwn, fy amcan yw sicrhau bod yr ymgynghoriad hwn yn rhan allweddol o'n gwaith i benderfynu ar y ffordd ymlaen i Gymru.

Bydd y Ford Gron a gynullir gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn ganolog ar gyfer yr ymgysylltu hwn gan ddylanwadu ar ddatblygiad y polisi statudol cyntaf. Gan ddilyn o'r cyfarfodydd Ford Gron cynharach a gweithdai â rhanddeiliaid ehangach a gynhaliwyd dros yr haf, bydd y cyfarfodydd nesaf yn blatfform pwysig ar gyfer trafod y polisi. I gefnogi hynny, cynhelir gweithdai ar yr ymgynghoriad ei hun a'r trafodaethau sectorol manylach ynghylch ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Yn y modd hwn, bwrir ymlaen â'r gwaith i fwydo'r camau y bydd angen eu cymryd i gynnal y themâu â blaenoriaeth a mynd i'r afael â'r prif heriau a ddisgrifir yn y ddogfen hon dros gyfnod yr ymgynghoriad.

Bydd croeso am adborth ysgrifenedig mwy traddodiadol ar y themâu a'r prif amcanion o'u mewn ac a ddisgrifir yn y ddogfen hon fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Yn arbennig, gan gymryd i ystyriaeth y fframwaith cyfreithiol a'i ofynion fel y'u disgrifir yn y ddogfen hon, byddai'n ddefnyddiol derbyn cyfraniadau ar:

- Y prif gamau y bydd angen eu cymryd er mwyn cynnal y themâu a mynd i'r afael â'r prif heriau; a
- Y rhwystrau y mae angen eu chwalu.

# Atodiad 1: Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

## Beth yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

Mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ffordd newydd o reoli sy'n sicrhau nad yw'r ffordd rydym yn defnyddio'n hadnoddau naturiol ac yn effeithio arnyn nhw yn eu dirywio yn y tymor hir.  Mae'n ymwneud ag edrych ar y ffyrdd rydym yn *rheoli* ein hadnoddau naturiol:

- sut ydym yn eu defnyddio
- sut ydym yn lleihau'r pwysau ar ein systemau naturiol trwy weithgareddau fel arbed adnoddau, a
- gweithgareddau positif hefyd, fel adfer cynefinoedd

i *gryfhau cydnerthedd* ein hecosystemau. Gwnawn hyn am fod ecosystemau iach, cydnerth yn fwy abl i ddelio â'r pwysau a'r gofynion sydd arnynt – fel hinsawdd sy'n newid – fel eu bod yn gallu parhau i ddarparu'r amrywiaeth eang o wasanaethau ecosystem er ein lles a'n ffyniant, nawr ac yn y dyfodol.  Mae'n ymwneud â bod yn broactif a gweithredu i ddatblygu cydnerthedd, yn hytrach na rheoli'n hecosystemau a'n hadnoddau naturiol at eu 'terfynau amgylcheddol' oherwydd y ffactorau ansicr niferus sydd yn eu cylch.

Ein hamcan yw rheoli'n hadnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn ffordd ac ar gyflymder sy'n diwallu anghenion heddiw heb aberthu anghenion cenedlaethau yfory ac sy'n cyfrannu at saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Sut mae mesur cydnerthedd yr ecosystem?

Rhaid edrych ar beth mae cydnerthedd yn ei olygu

- **Amrywiaeth** – A siarad yn gyffredinol, mae ecosystemau mwy amrywiol yn fwy cydnerth, hynny yw yn gallu gwrthsefyll ffactorau allanol a'u heffeithiau.  Mae amrywiaeth yn golygu amrywiaeth fiolegol, daearegol a ffisegol.
- **Cysylltedd** o fewn ecosystemau a rhyngddynt
- **Maint a Chwmpas** – ehanga'n y byd yw cwmpas ecosystem, heb fylchau, mwya'n y byd yw ei chydnerthedd
- **Cyflwr** – mae angen i wasanaethau cynnal sylfaenol yr ecosystem fod mewn cyflwr iach i weithio'n effeithiol a darparu ystod o wasanaethau ecosystem pwysig.
- **Y gallu i addasu** – fel un o ganlyniadau'r uchod, mae gallu ecosystemau i addasu yn gofyn am ystyriaeth o'r cylchoedd addasu y mae llawer o ecosystemau'n mynd trwyddynt, gan ddeall nad yw ecosystemau'n ddisymud a'u bod yn newid dros amser.

## Darparu'r buddiannau

Mae ecosystemau'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau sydd yn eu tro'n creu buddiannau sy'n cysylltu adnoddau naturiol a lles pobl.  Sef:

- **Systemau a gwasanaethau cynnal:** mae eu hangen i gynhyrchu holl wasanaethau eraill ecosystem, fel ffurfio pridd, y cylch maethynnau a chynhyrchiant cynradd.
- **Gwasanaethau darparu:** fel cnydau, pysgod, pren a deunydd genetig
- **Gwasanaethau rheoli:** fel puro dŵr, mecanweithiau rheoli biolegol, storio carbon, peillio cnydau masnachol

- **Gwasanaethau diwylliannol:** ffynhonnell cyfoeth esthetig, ysbrydol, crefyddol, hamdden a gwyddonol.

Trwy edrych ar gydnerthedd ecosystem a'i buddiannau gyda'i gilydd, gwelwn set ehangach o fuddiolwyr, partneriaid posibl a noddwyr fydd yn deall pwysigrwydd ein hadnoddau naturiol a'u rheolaeth gynaliadwy.

## Sut mae gwneud hyn?

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn sefydlu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Dyma'n ffyrdd o weithio. Wrth lunio Polisi Adnoddau Naturiol a'i roi ar waith, byddwn yn rhoi'r egwyddorion hynny ar waith, sef:

- **Parod i addasu** – bydd angen cynllunio, monitro, adolygu a newid ein gwaith wrth inni ddefnyddio tystiolaeth well a phrofiad i ddeall pethau'n well.
- **Defnyddio graddfa** – bydd angen gwneud penderfyniadau a chynnal gweithgareddau ar y lefel briodol, boed cenedlaethol, rhanbarthol neu leol. Bydd angen inni weithio gyda'n gilydd i nodi'r raddfa fwyaf priodol ar gyfer cynnal y blaenoriaethau a'r cyfleoedd amgylcheddol a diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd ehangach y bydd ein tystiolaeth yn eu dangos.
- **Gweithio gyda'n gilydd** – mae gan bawb fudd yn ein hadnoddau naturiol ac mae gan bawb ran i sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu rheoli'n gynaliadwy, trwy gymryd rhan mewn prosiectau, rhoi tystiolaeth neu gydweithio ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- **Cysylltu â'r cyhoedd** – gofalu bod pawb yn cael cyfle i ddweud ei ddweud ynghylch sut y dylai adnoddau naturiol gael eu rheoli ym mhob cam o'r broses benderfynu.
- **Defnyddio Tystiolaeth** – mae angen sylfaen tystiolaeth well ac ehangach er mwyn inni ddeall ein hadnoddau naturiol yn well, sut maen nhw'n gweithio a'r buddiannau y maent yn eu darparu. Bydd tystiolaeth well yn ein helpu i gyd i ddeall yn well yr hyn y gallwn ei wneud i reoli'n hadnoddau naturiol yn fwy cynaliadwy. Bydd angen ystod eang o dystiolaeth; nid tystiolaeth amgylcheddol yn unig ond tystiolaeth ddiwylliannol, cymdeithasol ac economaidd hefyd gan arbenigwyr, rhanddeiliaid a chymunedau lleol.
- **Deall yr holl fuddiannau rydym yn eu cael trwy'n hadnoddau naturiol** – bydd angen inni ddeall yn well werth ein hadnoddau naturiol a sut y maent yn cynnal ei gilydd fel y gallwn ni a chenedlaethau'r dyfodol barhau i fanteisio ar y buddiannau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol tra'n lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd o'n cwmpas.
- **Ystyried y tymor hir** – dylem ystyried effeithiau ein penderfyniadau a'n gweithredoedd, yn y tymor byr a'r tymor hir.
- **Atal** – cymryd camau i atal difrod arwyddocaol i'n hecosystemau.
- **Cynyddu cydnerthedd** – er mwyn iddynt fedru delio â'r gofynion a'r pwysau sydd arnynt, mae angen i'n hecosystemau fod yn iach. Mae hynny'n cynnwys gofalu bod ein penderfyniadau'n ystyried cryfder ein hecosystemau a'u gallu i ddarparu'u buddiannau dros y tymor hir. Byddant hefyd yn helpu i sicrhau eu bod yn gallu addasu i effeithiau hinsawdd sy'n newid a'r gofynion arnynt yn y dyfodol.

## Sut ydym yn gwybod ein bod yn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

Er mwyn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, mae angen inni sicrhau:

- Nad yw adnoddau naturiol yn prinhau o hyd ac nad ydynt yn cael eu defnyddio'n gynt nac y maent yn cael eu cynhyrchu;
- Nad yw iechyd a chydnerthedd ein hecosystemau'n cael dioddef;
- Bod y gorau yn cael ei wneud o'r buddiannau a ddaw o wasanaethau ecosystem
- Bod cyfraniad gwasanaethau ecosystem at ein lles yn parhau i ddiwallu'n hanghenion sylfaenol, ac nad yw'n lleihau.

Yr 'Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol' gan Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r sylfaen genedlaethol o dystiolaeth sy'n disgrifio a ydym yn llwyddo yn hyn o beth.

## Atodiad 2 - Y Prif Heriau

Codwyd y prif heriau canlynol o’r Datganiad Polisi ar Adnoddau Naturiol a gyhoeddwyd yn 2015 (cyn i Cyfoeth Naturiol Cymru gyhoeddi’r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol). Cewch fwy o wybodaeth yn http://gov.wales/docs/desh/publications/150914-natural-resources-policy-statement-cy.pdf

**Diogelu a chynyddu’n storfeydd carbon**

Mae’r ffaith ein bod yn colli capasiti i storio carbon mewn priddoedd – yn enwedig yn ein hucheldiroedd mawnog – ac mewn biomas, yn enwedig pan fo coetir yn cael ei ddifetha’n barhaol, yn golygu nad ydym mor abl i reoleddio’n hinsawdd.

**Cynnal ein capasiti i gynhyrchu**

Mae colli priddoedd a dirywiad yn ansawdd pridd, bygythiadau i beillwyr ac i iechyd ein planhigion, a bygythiad yn sgil rhywogaethau estron goresgynnol, yn peryglu gallu’n tir i gynhyrchu bwyd, pren, ffibr; gan gynnwys eu cynhyrchu ar gyfer ynni.

**Lleihau perygl llifogydd**

Mae mwy o selio a chywasgu pridd yn sgil arferion ffermio a datblygiad trefol yn arwain at lai o gapasiti i storio dŵr ac at fwy o ddŵr ffo yn llifo oddi ar wyneb y tir. Mae’r ffaith bod amddiffynfeydd naturiol rhag llifogydd yn cael eu colli ar yr arfordir yn her allweddol.

**Gwella’n hiechyd a thegwch cymdeithasol**

Mae sŵn, aer o ansawdd gwael, a thipio sbwriel yn anghyfreithlon yn effeithio ar ein hiechyd. Mae diffyg cyfleoedd i fanteisio ar ofod gwyrdd neu las o ansawdd da yn cael effaith andwyol ar iechyd unigolion, a gall effeithio ar iechyd meddwl. Mae’r ffactorau hyn yn effeithio’n anghymesur ar bobl mewn ardaloedd trefol tlotach.

**Gwella ansawdd dŵr a sicrhau bod cyflenwad ohono’n parhau i fod ar gael**

Yng Nghymru, rydym yn dibynnu’n drwm ar ein hafonydd am ein cyflenwad dŵr. Mae llygredd gwasgaredig o amryfal ffynonellau, ynghyd â llygredd o darddleoedd penodol, yn effeithio ar ansawdd ein dŵr. Mae’r llygredd hwnnw’n cael ei achosi gan rai arferion rheoli tir, gan garthion a ollyngir, hen fwyngloddiau a charthffosydd sydd heb eu cysylltu’n iawn.

**Gwella ansawdd ein cynefinoedd a’r cysylltiadau rhyngddynt**

Yn sgil newidiadau i arferion rheoli tir, trefoli, llygredd, a rhywogaethau estron goresgynnol, collwyd a darniwyd cynefinoedd. Mae hynny, ar y cyd ag asideiddio ac ewtroffigedd, wedi effeithio ar faint o fywyd gwyllt y gall y cynefinoedd hynny ei gynnal, a hefyd ar ansawdd y bywyd gwyllt sydd ynddynt.

**Cynnal nodweddion unigryw ein lleoedd a’n tirweddau hanesyddol**

Mae Cymru yn enwog am ei thirweddau deniadol a hanesyddol. Yn ystod canol yr 20fed ganrif, effeithiwyd ar y tirweddau hynny gan ddatblygiadau a oedd yn gysylltiedig ag ynni, trafnidiaeth a thwristiaeth, a hefyd gan y modd yr aed ati i ddylunio coedwigoedd.

## Ffurflen Ymateb yr Ymgynghoriad

Eich enw:

Corff (os yn gymwys):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Cwestiwn** : Bydd croeso am adborth ysgrifenedig ar y themâu a'r prif amcanion o'u mewn ac a ddisgrifir yn y ddogfen hon fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Yn arbennig, gan gymryd i ystyriaeth y fframwaith cyfreithiol a'i ofynion fel y'u disgrifir yn y ddogfen hon, byddai'n ddefnyddiol derbyn cyfraniadau ar:

- y prif gamau y mae angen eu cymryd er mwyn cynnal y themâu a mynd i'r afael â'r prif heriau; a
- y rhwystrau y mae angen eu chwalu.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma. ☐